Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

WCVA yn parhau gyda'r arolwg dirwasgiad ac adferiad 2010

Dychwelodd cynnydd economaidd i sefyllfa o dwf rhwng Hydref a Rhagfyr 2009 ar ôl y dirywiad economaidd hwyaf ers yr 1930au. Fodd bynnag, mae'r cyfnod adfer yn debygol o fod yn amser caled i'r rhannau hynny o'r trydydd sector sy'n dibynnu ar y sector cyhoeddus am lawer o'u hincwm.

Mae canlyniadau arolwg WCVA ar y dirwasgiad yn dangos nad yw lefel optimistiaeth wedi newid ers mis Gorffennaf 2009, gyda 39 y cant o fudiadau yng Nghymru'n teimlo y bydd eu sefyllfa economaidd yn gwaethygu. Dywedodd 120 o gyflogwyr fod ganddynt 320 o swyddi mewn perygl yn 2010, sydd wedi cynyddu ers i'r arolwg ddechrau ym mis Chwefror 2009.

Oherwydd y casgliadau hyn a'r gostyngiad a ddisgwylir mewn cyllid i'r sector cyhoeddus, mae WCVA'n parhau â'i arolwg Dirwasgiad ac Adferiad yn 2010. Caiff yr arolwg hwn ei e-bostio i dros 6,000 o fudiadau a gellir cael mynediad ato ar-lein ar wefan WCVA. Os yw eich mudiad yn cael ei effeithio gan effeithiau hirdymor y dirwasgiad, a wnewch chi, os gwelwch yn dda, ystyried llenwi'r arolwg, a fydd yn cymryd oddeutu 15 munud. Mae canlyniadau arolygon blaenorol ar gael ar wefan WCVA, neu drwy gysylltu â Lein Gymorth WCVA.

Defnyddir canlyniadau'r arolwg fel sail i waith polisi WCVA ac maent yn darparu'r dystiolaeth sy'n gwneud i wneuthurwyr polisïau gymryd sylw. Diolch am eich cymorth.

Gwasanaeth am weld y sector yn cael ei gynnwys

Lansiwyd Galw Iechyd Cymru ym 1998. Ond bu'n rhaid aros tan 2000 – union ddegawd yn ôl i'r mis yma – tan i Wasanaeth Gwybodaeth Iechyd Cymru ymuno â Galw Iechyd Cymru, gyda'r nod o gynnig cymorth i bawb yn y wlad gyda'u pryderon iechyd.

Ers hynny, mae tîm Galw Iechyd Cymru o Arbenigwyr Gwybodaeth Iechyd wedi cynorthwyo miloedd o bobl yng Nghymru, drwy gynnig gwybodaeth drwy'r post, dros y ffôn a thrwy wefan Galw Iechyd Cymru.

Er mwyn dathlu'r degawd, mae Tîm Gwybodaeth Iechyd Galw Iechyd Cymru yn awyddus i feithrin cysylltiadau mwy clos rhwng eu Harbenigwyr Iechyd a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Er mwyn cyflawni hynny, mae'n gofyn am gymorth y sector gwirfoddol.

Os ydych yn gysylltiedig â mudiad addas, gallwch gofrestru manylion eich mudiad ar gyfeiriadur Galw Iechyd Cymru. Mae'n rhwydd dros ben, ewch i'r wefan yn www.nhsdirect.wales.nhs.uk/localservices/healthwellbeingincluded – a llenwch y ffurflen ar-lein.

Wrth drefnu'r dathliadau, meddai Leanne Hawker, Arweinydd Partneriaid mewn Gofal Iechyd, sy'n rheoli Gwasanaeth Gwybodaeth Iechyd Cymru: 'Mae ein gwasanaeth gwybodaeth iechyd yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i bobl a theuluoedd i'w helpu a'u cefnogi os oes ganddynt bryderon ynghylch eu hiechyd.'

Os hoffech wybod mwy am y cyfeiriadur a sut y gall eich mudiad wneud cyfraniad, cysylltwch â Gareth Wyn Thomas, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ar 01792 776252 neu gareth.w.thomas@ambulance.wales.nhs.uk.

Galwad am dystiolaeth ar gyfer Mesur Arfaethedig y Gymraeg

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol Mesur arfaethedig (deddf yng Nghymru), a fydd yn arwain at fwy o hawliau i siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) yn gwneud darpariaeth mewn pedwar maes allweddol:

- Cadarnhau statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.
- Sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Bydd y Comisiynydd yn cael ei benodi gan Brif Weinidog Cymru a bydd ganddo bwerau i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Bydd Panel Cynghori ar gyfer y Comisiynydd hefyd yn cael ei ffurfio, ac fe'i penodir gan Weinidogion Cymru.
- Rhoi pŵer i'r Comisiynydd i ymchwilio i gwynion gan siaradwyr Cymraeg sy'n credu yr ymyrrwyd â'u rhyddid i ddefnyddio'r iaith.
- Moderneiddio'r fframwaith i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Mewn amser, bydd cynlluniau iaith Gymraeg yn cael eu disodli gan safonau iaith Gymraeg, gyda'r nod o sicrhau mwy o gysondeb i'r cwsmer.

Bydd pum math o safon yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru: cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi, safonau gweithredu; a chadw cofnodion. Ar ôl i sefydliad dderbyn hysbysiad cydymffurfio gan y Comisiynydd ynghyd â dyddiad gorfodi, ni fydd eu cynllun iaith Gymraeg yn weithredol wedi hynny a byddant yn atebol i'r safonau. Y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am bennu'r safonau ar gyfer rhai sectorau drwy gynnal ymchwiliadau a chyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru.

Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo cyfres o safonau ar gyfer sectorau penodol a bydd y Comisiynydd wedyn yn eu gweithredu. Yna bydd y Comisiynydd yn penderfynu pa rannau o'r safonau sector fydd yn weithredol i fudiadau unigol ac yn cyhoeddi hysbysiadau, felly nid y mudiad fydd yn gyfrifol am benderfynu a fydd yn rhaid iddo gydymffurfio. Bydd gan fudiadau hawl i apelio i'r Comisiynydd ac i herio'r penderfyniad. Os na fydd yr apêl yn llwyddiannus, gallant wedyn apelio i Dribiwnlys y Gymraeg.

Bydd mudiadau trydydd sector yn dod o fewn cwmpas y Mesur os:

- ydynt yn derbyn £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus (ac eithrio arian y loteri) mewn blwyddyn ariannol, ac wedi gwneud hynny yn y flwyddyn flaenorol neu yn gwneud hynny mewn blwyddyn ariannol ddilynol;
- ydynt yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaethpwyd ag awdurdod cyhoeddus;
- ydynt yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd mewn addysg, hyfforddiant (lle mae'r darparwr yn derbyn arian cyhoeddus ar gyfer y ddarpariaeth) neu gyfarwyddyd gyrfaoedd;
- ydynt yn cyflenwi tai cymdeithasol;
- ydynt yn dewis derbyn neu'n cytuno i fod yn rhwym wrth ddyletswyddau.

Mae manylion pellach am y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Mesur ar gael ar wefan y Cynulliad yn: http://tiny.cc/029gj

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, dylech anfon copi electronig o'ch sylwadau i legislationoffice@wales.gsi.gov.uk a defnyddio Ymgynghoriad – Mesur Arfaethedig y Gymraeg fel teitl eich e-bost. Neu, gallwch ysgrifennu at Owain Roberts, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, Y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA. Dylai sylwadau gyrraedd erbyn 11 Mai 2010.

Bydd WCVA yn rhoi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor ym mis Mehefin, ac os oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech i ni eu hystyried, e-bostiwch Lynne Reynolds (lreynolds@wcva.org.uk) erbyn 17 Mai 2010.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru